# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Ty Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 15 Tachwedd 2011** | |
| Amser: | **08:30 - 08:45** | |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Lindsay Whittle (yn lle Jocelyn Davies)** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Aled Elwyn Jones, Clerc Eweithdrefnau** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Roedd Lindsay Whittle yn dirprwyo ar ran Jocelyn Davies, a anfonodd ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor fel rhai a oedd yn barod i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) **Busnes yr wythnos hon**

Cytunodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r pleidleisio ddydd Mawrth ar y gyllideb ddrafft ac ar y ddadl ar wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn digwydd ar ddiwedd y dadleuon hynny, yn amodol ar gadarnhad.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio cyn y ddadl fer ddydd Mercher.

### 3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen tair wythnos o fusnes y Llywodraeth.

### 3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Deddfwriaeth

### 4(i) **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Bil Diogelu Rhyddidau**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Bil Diogelu Rhyddidau. Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r Memorandwm i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fel y gall graffu arno cyn iddo fod yn destun dadl yn y Cyfarfod Llawn; y dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 24 Ionawr 2012.

## 5. Busnes arall

### 5(i) **Gweithredu diwydiannol - yr effaith ar fusnes ffurfiol y Cynulliad**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried opsiynau wrth-gefn i sicrhau nad oes unrhyw ran o'r busnes sydd wedi'i drefnu gan y Cynulliad yn cael ei golli os oes gweithredu diwydiannol ar 30 Tachwedd.

Cytunodd y Llywodraeth i ddod â'r cwestiynau llafar a ganlyn yn nes. Byddant, felly, yn cael eu cynnal ddydd Mawrth 29 Tachwedd:

- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mai'r opsiwn a oedd well ganddynt oedd ymestyn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 6 Rhagfyr a dydd Mercher 7 Rhagfyr fel bod amser i ymdrin â'r eitemau sy'n weddill o fusnes y Cynulliad a oedd i'w gynnal ar 30 Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried y cynllun wrth-gefn ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.